| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **120 - Rheoliadau Bwyd a Ffermio (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 14 Chwefror 2019* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | W/C 25/02/2019 |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 5 Mawrth 2019 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 60 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud ag organeddau a addaswyd yn enetig, gwin, gwirodydd a thaliadau uniongyrchol. Mae'r diwygiadau'n cynnwys newidiadau technegol yn bennaf, sy'n golygu y bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn parhau i fod yn weithredadwy yng nghyd-destun y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ac felly'n dod yn 'drydedd wlad' mewn perthynas â'r UE. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir ynghylch cynlluniau Dynodiadau Daearyddol. Mae Dynodiadau Daerdyddol yn ffurf ar ddiogelu eiddo deallusol ar gyfer enwau cynhyrchion amaethyddol, bwyd a diod, y gellir priodoli eu

rhinweddau neu eu nodweddion i'r rhanbarth neu'r ardal lle y cânt eu cynhyrchu a/neu'r dulliau traddodiadol a ddefnyddir i'w cynhyrchu. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys cig oen Cymru, chwisgi'r Alban, hufen Iwerddon a chwrw Swydd Gaint.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 19 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

1. Mae Rheol Sefydlog 30C.3(ii) yn datgan bod yn rhaid i'r datganiad ysgrifenedig "nodi unrhyw effaith y caiff yr offeryn statudol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru".
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y canlynol yn ei datganiad ysgrifenedig:

*"Mae'r offeryn hwn yn trosglwyddo swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, gallai hynny olygu y bydd gofyn ymgynghori â Llywodraeth y DU."*

3. Mae Llywodraeth Cymru, yn ei datganiad ysgrifenedig, wedi nodi y bu anghytuno â Llywodraeth y DU ynghylch a yw cynlluniau Dynodiadau Daearyddol yn faterion datganoledig neu'n faterion a gedwir yn ôl.
4. Gan fod Llywodraeth y DU o'r farn mai materion a gedwir yn ôl yw'r rhain, nid yw'n credu eu bod yn ddarostyngedig i delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai materion datganoledig yw'r rhain.
5. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio swyddogaethau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd o fewn yr offeryn hwn mewn perthynas â dynodiadau daearyddol, ond mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod o'r farn mai materion a gedwir yn ôl yw'r rhain.
6. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi na fu'n bosibl datrys y materion hyn o fewn yr amser angenrheidiol i sicrhau llyfr statud sy'n gweithio.
7. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi addewidion ysgrifenedig i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y bydd gan yr holl Weinyddiaethau Datganoledig ran wrth weithredu cynllun Dynodiadau Daearyddol newydd y DU gyfan. Bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ategu'r offeryn hwn, ac mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn ceisio sicrhau y bydd gan Weinidogion Cymru rôl ystyrlon yn y broses o weinyddu'r cynllun.
8. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cydsyniad ar y sail yr eir i'r afael â hyn maes o law, ac mae wedi'i egluro nad yw'r cydsyniad hwn yn rhagfarnu ei sefyllfa o ran cymhwysedd deddfwriaethol.
9. Mae Rheol Sefydlog 30C.3(iii) yn nodi bod yn rhaid i'r datganiad ysgrifenedig "pan fo Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i

Weinidogion y DU wneud yr offerynnau statudol perthnasol, esbonio'r rhesymau pam y rhoddwyd cydsyniad".

10. Mae datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru wedi esbonio'n glir y rhoddwyd cydsyniad er mwyn i Lywodraeth y DU wneud cywiriadau ynghylch materion yn ymwneud â gwin, gwirodydd organeddau a addaswyd yn enetig a thaliadau uniongyrchol i ffermwyr am resymau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau.
11. Fodd bynnag, nid yw datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn esbonio'n glir pam y rhoddwyd cydsyniad mewn perthynas â chynlluniau Dynodiadau Daearyddol, ac mae diffyg eglurhad ynghylch ai mater datganoledig neu fater a gedwir yn ôl yw hwn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn tynnu sylw at baragraffau 3 a 4 yn y sylwadau uchod ynghylch datganiad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin.